**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

31 Ionawr 2024

Annwyl Lesley,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 10 Ionawr 2024 mewn perthynas â'ch penderfyniad i gydsynio i wneud y Rheoliadau uchod. Bu fy Mhwyllgor yn trafod y llythyr yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024.

Byddai'n ddefnyddiol i ni gael rhagor o wybodaeth am y Rheoliadau a deddfwriaeth arall sy'n ofynnol i weithredu Model Gweithredu Targed y Ffin. Byddem felly'n ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau sydd yn yr atodiad erbyn 21 Chwefror 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

## Atodiad

1. Rydych yn datgan yn eich llythyr mai'r offeryn statudol fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i weithredu carreg filltir gyntaf Model Gweithredu Targed y Ffin o 31 Ionawr 2024. A allech ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â deddfwriaeth y rhagwelir y bydd ei hangen i gyrraedd cerrig milltir yn y dyfodol?

2. Rydych yn nodi yn eich llythyr nad oedd yn bosibl rhoi hysbysu fyh Mhwyllgor ymlaen llaw am eich bwriad i gydsynio â'r Rheoliadau gan mai yn ystod y toriad y daeth yr offeryn statudol i law. A allwch chi nodi a wnaeth Llywodraeth y DU eich hysbysu ymlaen llaw am gwmpas arfaethedig y rheoliadau hyn, ac os felly, pryd y rhoddwyd y cawsoch chi eich hysbysu?

3. Rydych chi wedi cyfnewid gohebiaeth gyda'm Pwyllgor yn y gorffennol am y berthynas rhwng rheoliadau rheolaethau swyddogol a rhwymedigaethau rhyngwladol, yn enwedig i reolau Sefydliad Masnach y Byd a Chytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE. Fe wnaethoch chi fynegi pryderon y gallai'r sefyllfa bresennol fod yn anghydnaws â rhwymedigaethau'r DU ond mai sefyllfa dros dro oedd hon, ac nad Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am risgiau'r anghydnawsedd hwn. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw'r rheoliadau hyn yn datblygu'r sefyllfa hon a sut hynny?